cyfnewidcymru xchangewales | eFasnachu i Ysgolion™

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Manteisio ar dechnoleg yn Llanbedr-y-fro – eFasnachu i Ysgolion ar waith

"Mae'r prisiau ar yr anfonebau'n union yr un fath â'r rhai ar y system. Mae TAW yn gywir, hyd yn oed. Does dim angen addasu dim ar bapur, felly mae'n hawdd cyfateb anfonebau"

Wrth yrru drwy gymuned wledig Llanbedr-y-fro, mae'n bosibl y byddwch chi'n meddwl tybed pam mae hi'n edrych mor gyfarwydd. Y rheswm yw bod y pentref, sydd 8 milltir yn unig y tu allan i Gaerdydd, a'r eglwys, wedi bod yn seren rhaglen Gavin a Stacey y BBC yn ddiweddar. Ynghanol y gymuned hardd a ffyniannus hon mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Llanbedr-y-fro, sy'n gartref i 180 disgybl oedran cynradd a meithrin.

Mae gan David Griffiths, y Pennaeth ers 20 mlynedd, amserlen brysur yn cydbwyso'i gyfrifoldebau yn yr ysgol â secondiad i Gyngor Sir Caerdydd fel Athro Ymgynghorol Cynradd i ysgolion Caerdydd, ac eleni, fel Llywydd NAHT Cymru. Nawr mae David a'i ysgol hefyd wedi dod yn un o'r ysgolion cyntaf ym Mro Morgannwg i ddefnyddio'r system eGaffael newydd, eFasnachu i Ysgolion.

Beth yw eFasnachu i Ysgolion?

Offeryn eGaffael yw eFasnachu i Ysgolion sydd wedi'i deilwra'n benodol i anghenion ysgolion. Mae'n cynnig gwasanaeth syml, diogel ar-lein i ysgolion allu dethol nwyddau a gwasanaethau gan ddarparwyr a fframweithiau rhanbarthol a chenedlaethol; a gellir ei integreiddio â systemau rheoli ariannol SIMS presennol.

Mae eFasnachu i Ysgolion yn cael ei gyflenwi gan is-adran Gwerth Cymru Llywodraeth y Cynulliad. Drwy raglen cyfnewidcymru, nod Gwerth Cymru yw creu effeithlonrwydd yn y Sector Cyhoeddus drwy gyflenwi cynnyrch a gwasanaethau caffael electronig, gan ostwng y gost o fasnachu i brynwyr a chyflenwyr y Sector Cyhoeddus. Amcangyfrifir y gwneir arbedion o £70m - £200m dros oes 5 mlynedd y rhaglen. Y cyrff sy'n cymryd rhan – er enghraifft, ysgolion, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai – sy'n cadw'r holl arbedion ariannol ac effeithlonrwydd.

Ar ôl cymryd rhan yn rhaglen beilot lwyddiannus y system yn 2009, mae Cyngor Bro Morgannwg bellach yn ei chyflwyno i bob un o'i 59 ysgol: medd Lesley Matthews, Cydlynydd SIMS a Chynorthwyo Ysgolion, Cyngor Bro Morgannwg: *"Mae caffael yn her gynyddol i ysgolion, yn enwedig gyda'r cyfyngiadau ar gyllidebau yn yr hinsawdd sydd ohoni. Mae porth eFasnachu i ysgolion yn cynnig amgylchedd electronig diogel i ysgolion i gael y gwerth gorau wrth brynu er mwyn gwneud arbedion a bod yn effeithlon. Dyma un o'r prif resymau pam penderfynwyd ymgysylltu â cyfnewidcymru i gyflwyno'r porth yn ysgolion y Fro."*

Mae Ysgol Llanbedr-y-fro yn rhan o'r don gyntaf ac mae disgwyl y bydd y system ar gael ym mhob ysgol erbyn diwedd 2010.

Arwain y ffordd yn Llanbedr-y-fro

Deborah Griffiths, Gweinyddwr Ysgol sydd wrth y llyw gyda'r newid hwn o gaffael ar bapur i gaffael electronig. Mae Deborah, a fu'n gweithio yn yr ysgol ers 2008, wedi bod yn dethol nwyddau o gatalogau papur, ac yn anfon yr archebion drwy ffacs neu dros y ffôn. Roedd CDROM bob hyn a hyn yn rhoi trefniadau prisio newydd i'w llwytho i system rheoli ariannol (FMS) SIMS.

Bellach mae gan Deborah fynediad i borth eFasnachu i Ysgolion, ac mae archebu'n llawer haws. Nawr mae hi'n gallu cael mynediad at gyfres o gatalogau ar-lein gan gyflenwyr cenedlaethol a rhanbarthol – mae'r rhain yn cynnwys ei chyflenwyr cyson a chytundebau fframwaith hefyd. Yn ogystal mae'r swyddogaeth Cais am Ddyfynbris (RFQ) yn ei gwneud hi'n bosib iddi gysylltu â chyflenwyr i gael prisiau eitemau a gwasanaethau cymhleth nad ydyn nhw ar gael yn hawdd drwy gatalogau.

Deborah Griffiths

Ym mis Rhagfyr cwblhaodd Deborah ddwy archeb – un am bapur ysgrifennu a'r llall am ddefnyddiau traul y Nadolig, cyfanswm o ychydig dros £330. Beth oedd ei barn am y broses? *"Roedd hi'n hawdd. Yn union fel defnyddio unrhyw un o'r gwefannau siopa ar-lein, fel Argos. Fe edrychais i am yr eitemau oedd eu hangen drwy roi rhif y catalog neu drwy chwilio geiriau allweddol."* Roedd Deborah yn arbennig o hoff o'r ffaith nad oes rhaid iddi ddewis o gatalog bellach ac mae'n hi'n rhagweld y bydd llawer mwy o le storio yng nghwpwrdd ei swyddfa fach yn nerbynfa'r ysgol: *"Efallai na fydd angen cwpwrdd i storio catalogau arna i yn y dyfodol!"*

Daeth yr archebion cyntaf drwodd yn gyflym ac mae hyn wedi dod â'r fantais allweddol gyntaf i'r ysgol. Cyn hyn, roedd pob archeb yn dod â gwaith ychwanegol i Deborah: lle roedd prisiau wedi newid ers y diweddariad CDROM diwethaf, roedd yn rhaid cyfateb pob anfoneb ag archebion prynu ac roedd angen gwneud newidiadau ar bapur i'w FMS. Roedd hyn nid yn unig yn dasg lafurus, weithiau roedd gwario dros y gyllideb yn digwydd yn anfwriadol lle roedd prisiau wedi codi. Nawr gall Deborah ragweld y pris i'r geiniog: *"Mae'r prisiau ar yr anfonebau'n union yr un fath â'r rhai ar y system. Mae TAW yn gywir, hyd yn oed. Does dim angen addasu dim ar bapur, sy'n llyncu cymaint o amser fel arfer."*

Beth am roi'r cyfan ar waith - oedd hon yn broses gymhleth? Aeth Lesley Matthews i ymweld â'r ysgol a rhoi eFasnachu i Ysgolion ar waith. Cymerodd y broses (gan gynnwys yr hyfforddi) tua awr a hanner. Gwnaeth y mesurau diogelwch gydag enwau defnyddwyr a chyfrineiriau gryn argraff ar Deborah. Nawr mae ganddi eicon ar ei bwrdd gwaith sy'n mynd â hi'n syth at borth eFasnachu i Ysgolion.

Arhosodd Lesley gyda Deborah a'i llywio drwy ei harcheb gyntaf: *"Mae'r ffurweddiad a'r ddogfennaeth canllawiau i ddefnyddwyr yn 'gyfeillgar' iawn ac oherwydd y saethiadau o'r sgrin mae hi'n ddogfen gyfeirio ddefnyddiol. Doedd dim angen i ni greu o'r newydd gogyfer â defnyddwyr y Fro."* Mae tîm cyfnewidcymru bellach yn gweithio ar gymorth cof i roi rhagor o gymorth i ddefnyddwyr.

Dysgu'r drefn

Mae'r cyfnod cyn y Nadolig, gan mai ychydig o archebion a wneir fel arfer, wedi bod yn gyfnod da i roi'r system ar waith. Buddiol fu gallu gweithio drwy'r swyddogaeth i ddysgu wrth ei phwysau. Medd Deborah: *"Doedd dim angen imi ruthro a dwi wedi cael amser i gyfarwyddo â'r system a'r holl bethau mae'n gallu eu gwneud. Rwy' wedi gwneud fy archeb fawr gyntaf – dros £1200 – gydag un o'n cyflenwyr cyson. Mae prosesu archebion yn ddiarhebol o araf, felly rwy'n edrych ymlaen at weld sut mae eFasnachu i Ysgolion yn cyflymu pethau."* Derbyniodd Deborah y rhan fwyaf o'i harcheb mewn dau ddiwrnod yn unig – gwelliant sylweddol i'r sefyllfa.

Fel sydd i'w ddisgwyl gyda system newydd, bu un neu ddwy broblem fach: Cyflenwyr nad ydyn nhw'n disgrifio eu gweithgareddau cynradd yn gywir, er enghraifft ac ymatebodd neb i Gais am Ddyfynbris am ddefnyddiau traul i argraffwyr. Wrth archwilio, gwelwyd mai'r rheswm am hyn yn rhannol oedd camgymeriad yng nghyfeiriad e-bost yr ysgol. Chymerodd hi ddim llawer o amser i gywiro hyn drwy ffonio desg gymorth eFasnachu i Ysgolion. Mae Deborah wedi gorfod atgoffa ei hun hefyd i gysylltu archeb eFasnachu i Ysgolion â FMS SIMS. Dim ond gwasgu allweddell swyddogaeth sydd ei angen ac mae'n fater o ddysgu proses newydd – daw hyn yn ail natur iddi mewn dim o dro.

Efallai na fydd angen catalogau yn y dyfodol

Felly beth yw'r cam nesaf i eFasnachu i Ysgolion yn ysgol gynradd Llanbedr-y-fro?

Mae Deborah yn awyddus i fanteisio ar yr arbedion posib sydd ar gael drwy gytundebau fframwaith. Er enghraifft mae'r disgownt ychwanegol o 7% gan Y Consortiwm Pwrcasu a Dosbarthu eisoes wedi bod o fantais. Gwnaed hyn drwy gofrestru gyda'r cyflenwr cyn gwneud archeb – ffurflen fer i'w llenwi'n gyflym.

Bydd y tymor newydd ym mis Ionawr yn amser prysur i'r ysgol, a bydd y rhestr o ddefnyddiau traul yn yr ystafell staff yn mynd yn hirach. Nawr mae Deborah yn edrych ymlaen at yr arbedion o ran amser ac arian a ddaw yn sgil y system eFasnachu i Ysgolion.

Byddwn yn dychwelyd i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr-y-fro ac yn eu dilyn ar eu taith eFasnachu i Ysgolion.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan:
www.xchangewales.co.uk
neu ebost:
xchangewales@wales.gsi.gov.uk

E6410910